# AMLINELLIAD O'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY DIWYGIEDIG

Tachwedd 2024

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

## NEWIDIADAU ALLWEDDOL

**DIDDYMU'R RHEOL CYNLLUN O 10% O ORCHUDD COED**
Ei ddisodli â tharged cynllun cyfan (i'w gytuno) a gweithred ddiwygiedig (UA13) ar gyfer cynllun cyfleoedd plannu coed a chreu gwrychoedd.

**TAIR GWEITHRED IECHYD, LLES A BIODDIOGELWCH ANIFEILIAID WEDI'U CYFUNO'N UN, A'I SYMLEIDDIO**
Ffocws ar drafodaethau gyda milfeddyg eich fferm ynghylch gwella iechyd anifeiliaid a chanlyniadau lles.

**SoDdGA YN GYMWYS AR GYFER TALIADAU**
Bydd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn gymwys ar gyfer y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.

**YMRWYMIAD I DALIADAU GWERTH CYMDEITHASOL**
Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Taliad Gwerth Cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r camau gweithredu a gymerir gan ffermwyr yng Nghymru sy'n cyfrannu at bob un o'r 4 amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**GOSTYNGIAD YN Y NIFER O WEITHREDOEDD CYFFREDINOL O 17 i 12**
Wedi'u dileu:
UA4: Cnydau gorchudd amlrywogaeth
UA6: Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr
UA10: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol
UA16: Lles da anifeiliaid (cyfunwyd)
UA17: Bioddiogelwch da ar y fferm (cyfunwyd)

**TIR COMIN YN GYMWYS AR GYFER TALIADAU'R CYNLLUN**
Bydd ardaloedd tir comin sydd â hawliau pori yn gymwys ar gyfer cyfran o'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol (yn unol ag amodau) yn seiliedig ar ddyraniadau tebyg i Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).

## GWEITHREDOEDD CYFFREDINOL

**UA1: MEINCNODI**
Dewis 2 Ddangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) fesul menter (3 ar gyfer menter sengl) o restr sydd wedi'i chymeradwyo gan y diwydiant, a chofnodi ar Cyswllt Ffermio neu ddatgan defnydd o arf meincnodi arall a gydnabyddir gan y diwydiant.

**UA2: DATBLYGIAD PERSONOL PARHAUS**
Cwblhau 6 awr o ddysgu yn ogystal ag elfen o Iechyd a Diogelwch, yn hytrach na 6 modiwl fel y cynigiwyd yn wreiddiol. Hyblygrwydd o ran pynciau, darparwyr dysgu a dulliau dysgu h.y. grwpiau trafod. Cofnodi'r dysgu ar Cyswllt Ffermio.

**UA3: CYNLLUNIO IECHYD PRIDD**
Prawf pridd ar gyfer P, K, M, pH a SOM (Mater Organig Pridd) ar 20% o'ch tir sy'n derbyn mewnbynnau bob blwyddyn, a chofnodi'r canlyniadau ac unrhyw gamau gweithredu dilynol drwy RPW Ar-lein. Bydd canlyniadau profion pridd blaenorol dros y 5 mlynedd diwethaf yn cael eu hystyried, ac mae'r cysylltiadau â'r llyfr gwaith NVZ wedi'u dileu.

**UA5: RHEOLAETH INTEGREDIG AR BLÂU (IPM)**
Cwblhau asesiad IPM blynyddol os ydych chi'n defnyddio cynnyrch diogelu planhigion (PPI). Casglu a chofnodi data bob tro y byddwch chi'n defnyddio cynnyrch PPI, a chadw cofnodion ar y fferm. Cadarnhau eich bod wedi gwneud hynny drwy RPW Ar-lein.

**UA7: CYNNAL CYNEFINOEDD**
Bellach yn cynnwys cynnal (nid creu) 'pyllau dŵr parhaol a thymhorol' a 'chynefinoedd a grëwyd o'r newydd ar dir sydd wedi'i wella' fel categorïau cynefin. Cwrdd â chanlyniadau mesuradwy ar gyfer pob math o gynefin. Datgan ardal a math o gynefin ar y SAF yn flynyddol.

**UA8: CREU CYNEFIN DROS DRO AR DIR WEDI'I WELLA**
Gofyniad i fodloni'r Rheol Cynllun o 10% o gynefin yn unig. Rhestr o opsiynau cynefin dros dro i ddewis ohonynt. Datgan cnydau ac ardaloedd i'w plannu ar eich SAF.

**UA9: CYNLLUNIAU RHEOLI SAFLEOEDD DYNODEDIG**
Bod â Chynllun Rheoli yn ei le ar gyfer Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (AoDdGA) ar eich fferm erbyn diwedd 2030. Bydd y Rhestr Waith yn darparu cyfleoedd ychwanegol i dderbyn cyllid drwy Weithredoedd Dewisol a Chydweithredol.

**UA11: RHEOLI PERTHI / GWRYCHOEDD**
Torri llai a llai bob tro ar wrychoedd a reolir i gynyddu eu maint, yn hytrach na gorfod bodloni'r gofynion 'cyflwr da' a osodir. Gadael coeden yn y gwrych bod 50m ar gyfartaledd. Cynnal lleiniau clustogi o 1m a pharhau i gadw at y dyddiadau torri.

**UA12: CYNNAL A CHADW COETIR**
Rheolir coetir ar ffermydd yn unol â chanlyniadau mesuradwy. Does dim angen cadw'r HOLL goed marw bellach. Caniateir bwydo adar hela. Datgan yr ardal a'r math o goetir ar SAF bob blwyddyn.

**UA13: CYNLLUN CYFLEOEDD I BLANNU COED A CHREU GWRYCHOEDD**
Datblygu cynllun sy'n nodi cyfleoedd i blannu coed a chreu gwrychoedd gan ddefnyddio'r data mapio blaenorol sydd orau ar gyfer eich busnes. Does dim targed plannu gorfodol fesul fferm, ond bydd disgwyl ichi wneud rhywfaint o gynnydd erbyn 2030 (bydd grantiau LlC dewisol ar gael gyda gofyniad plannu lleiaf o 0.1ha). Mae hwn yn hyblyg a bydd yn cynnwys lleiniau cysgodi, silfoborfa, gwrychoedd newydd ac ati.
Cadw cofnodion fferm ac arddangos cynnydd erbyn 2030 ar eich SAF.

# AMLINELLIAD O'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY DIWYGIEDIG

Tachwedd 2024

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

## GWEITHREDOEDD CYFFREDINOL (parhad)

**UA14: AMGYLCHEDD HANESYDDOL**
Monitro, cynnal a gwarchod nodweddion hanesyddol ar eich fferm. Ymgymryd â chamau rheoli penodol a fydd yn dibynnu ar y nodwedd hanesyddol dan sylw h.y. atgyweirio sylfaenol, atal dirywiad pellach ac ati. Datgan eich bod yn cydymffurfio ar eich SAF bob blwyddyn.

**UA15 IECHYD A LLES ANIFEILIAID**
Mannau golchi wedi'u diddymu. Gweithio drwy'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid gyda'ch milfeddyg. Cwblhau Asesiad Bioddiogelwch blynyddol o Anifeiliaid Sy'n Cyrraedd y Fferm. Sgorio symudedd a chyflwr y corff yn flynyddol ac ymgymryd â hyfforddiant perthnasol bob pum mlynedd. Cadarnhau drwy RPW Ar-lein.

**RHEOL CYNLLUN: 10% O GYNEFIN**
Bydd cynefinoedd presennol (gwrychoedd i'w cadarnhau) a chynefinoedd sydd wedi'u creu o'r newydd yn cael eu cynnwys. Bydd cynefinoedd dros dro a grëwyd drwy UA8 a/neu gynefinoedd parhaol a grëwyd drwy haenau Dewisol a Chydweithredol yn cael eu cynnwys. Nodir ardaloedd Cynefin drwy Ymarfer Cadarnhau Data ac Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

## CAMAU NESAF

**CAMAU GWEITHREDU DEWISOL A CHYDWEITHREDOL**
Cyflwyno fesul cam o 2026 ymlaen ar sail blaenoriaethau.
<u>Enghreifftiau o gamau Dewisol:</u> Rheoli cynefinoedd, arferion fferm organig, gwella perfformiad y fferm, creu coetir, grantiau cyfalaf, atafaelu carbon ac ati.
<u>Enghreifftiau o gamau Cydweithredol:</u> Gweithgaredd ar raddfa tirwedd, cyfleoedd mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi, arloesedd a thechnoleg ac ati.

**ASESU CARBON FFERMYDD**
Bwriad i ddarparu ffermwyr â'r mecanwaith ar gyfer mesur y cydbwysedd carbon ar eu fferm a nodi cyfleoedd i atafaelu carbon, a ffyrdd o leihau allyriadau yn unol â chanfyddiadau'r Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon. Bydd y dull o wneud hyn yn cael ei ddatblygu gyda'r Ford Gron Weinidogol a'r Gweithgor Swyddogion.

**CANLLAWIAU'R CYNLLUN**
Bydd canllawiau manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y cynllun, yn gosod y gofynion ar gyfer pob Gweithred Gyffredinol, Cod i Bawb a Safonau Gwiriadwy (h.y. trawsgydymffurfio). Bydd y rhain ar gael pan fydd y Cynllun terfynol yn cael ei lansio y flwyddyn nesa, a'r bwriad yw creu un cyfeirbwynt hwylus ar gyfer pawb.

**METHODOLEG TALU**
Bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn cynnwys y costau a wynebwyd a'r incwm a gollwyd yn sgil ymgymryd â'r Gweithredoedd Cyffredinol a bodloni gofynion y cynllun, yn ogystal â Thaliad Gwerth Cymdeithasol, sy'n adlewyrchu'r camau gweithredu a gymerir gan ffermwyr Cymru sy'n cyfrannu at bob un o 4 amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd hwn yn cael ei dalu yn erbyn y fferm gyfan, gan gynnwys tir sydd wedi'i wella, coetiroedd a chynefinoedd, ac unrhyw hawliau pori tir comin sydd gennych (yn debyg i'r BPS).

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cynllun diwygiedig yn cael ei ddefnyddio nawr i gynnal dadansoddiad economaidd ac asesiadau effaith diweddaredig dros y misoedd nesaf. Bydd yr asesiadau hyn yn hanfodol i nodi'r effeithiau posib ar ffactorau amaethyddol, amgylcheddol a chymdeithasol, a byddant yn sail i'r penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru ar ddyluniad y Cynllun terfynol y flwyddyn nesaf. Darperir cyfraddau talu cychwynnol pan gaiff dyluniad y cynllun terfynol ei gyhoeddi.

**CAM PARATOADOL 2025**
Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd y cynlluniau cymorth canlynol ar gael:

1. Bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn parhau
2. Cynllun Cynefin Cymru
3. Cytundebau Tir Comin Cynllun Cynefin Cymru
4. Cynllun Cymorth Organig
5. Estyniad i gontract Cyswllt Ffermio
6. Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig
7. Ffenestri ymgeisio am Grantiau Bach

**CYFNOD PONTIO 2026-2029**
Bydd cyfnod pontio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn dechrau ar 1 Ionawr 2026 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029. O 2026, gall ffermwyr ddewis gwneud cais am Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) neu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) drwy'r SAF. Bydd y BPS yn dod i ben fesul cam yn ystod y cyfnod pontio drwy leihau'r taliadau ar gyfradd o 20% bob blwyddyn. Unwaith y byddwch wedi ymuno â'r SFS, ni fyddwch yn cael dychwelyd i'r BPS.